

Safonau'r Gymraeg

Materion Atodol:
Adroddiad Sefyllfa – Mehefin 2021

Cynhyrchwyd yn unol â gofynion y
Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015.

A greener place
Man gwyrddach



Yn unol â gofynion yr adran Materion Atodol o'r Safonau Iaith Gymraeg (a osodwyd ar y Cyngor yn Hysbysiad Cydymffurfio'r Comisiynydd y Gymraeg dyddiedig 30/09/15), mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu'r wybodaeth ganlynol er mwyn dangos cydymffurfiaeth a diweddariad.

| Rhif y Safon | Gwybodaeth |
|--|---|
| 155, 161, 167, 173, 175 | Mae Hysbysiad Cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg (sy'n rhoi manylion am yr holl Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llundain Polisi, Gweithredu, Hybu a Chadw Cofnodion y mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar fewnwyd y Cyngor er gwybodaeth y staff ac aelodau etholedig, a hefyd ar dudalen ar wefan y Cyngor. |
| 156, 162, 168 | <p>Mae'r cyngor wedi datblygu a chyhoeddi Canllaw Cwynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg, integredig ar gyfer staff, er mwyn codi ymwybyddiaeth am y gwahanol ofynion statudol diwygiedig.</p> <p>Mae hyn yn cyd-gysylltu â'r system cofnodi a monitro cwynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg presennol, fel y mae'r Cyngor yn nodi â manylion llawn amdanynt yn yr Adroddiadau Blynyddol Safonau'r Gymraeg bob blwyddyn.</p> |
| 157, 158, 159, 163, 164, 165, 169, 170, 171, 173, 175. | <p>Sicrheir goruchwyliaeth o'r Safonau'r Gymraeg ar lefel gorfforaethol ac ar draws y meysydd gwasanaeth yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae Cydymffurfiaeth â'r Safonau'r Gymraeg yn un o'r 7 Amcan Cydraddoldeb Strategol o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2021 (Amcan 5), a symudodd ymlaen trwy'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, y Cabinet a'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo ym mis Hydref 2020. Mae hyn yn sicrhau bod y Safonau yn rhan o'r fframwaith polisi cyfreithiol y Cyngor. ○ Ers 2016, mae'r Adroddiadau Blynyddol Safonau'r Gymraeg wedi cael eu drafftio, mynd trwy gyfnod ymgynghori ac yna'u cyflwyno i'r Cabinet cyn cael eu cyhoeddi erbyn 30^{ain} Mehefin, sef y dyddiad cyhoeddi. |

| | |
|---|--|
| <p>157, 158, 159, 163, 164, 165, 169, 170, 171, 173, 175 (parhad)</p> | <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae proses Asesu Effaith Cydraddoldeb y Cyngor wedi cynnwys materion yr Iaith Gymraeg ers 2011, fodd bynnag, mae'r ffurflen a'r canllawiau Asesu wedi'u diweddarau ym mis Mawrth 2021 i gynnwys y Dyletswydd Socio-economiadd, ond roedd hefyd yn gyfle i gryfhau'r agweddau Iaith Gymraeg yn unol â'r Safonau llunio polisi perthnasol. ○ Mae'r Cynlluniau Iaith Gymraeg blaenorol a Safonau'r Gymraeg yn cwmpasu pob agwedd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor ar draws cannoedd o wahanol swyddogaethau. Er mwyn torri'r gofynion lawr i feysydd thematig er mwyn i staff allu deall sut mae materion Iaith Gymraeg yn ymwneud â'u gwaith o ddydd i ddydd, ers 2011 datblygwyd amrywiaeth o ddogfennau canllaw ymarferol. Mae'r dogfennau canllaw canlynol bellach ar gael, sydd wedi'u diweddarau i adlewyrchu gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae rhai o'r rhain wrthi'n cael eu diweddarau. Mae'r rhain yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> i) Canllaw Asesiadau Cydraddoldeb mewn Adroddiadau ii) Canllaw Caffael a Chomisiynu iii) Canllaw Cwynion iv) Canllaw Cyfieithu i'r Gymraeg v) Canllaw Digwyddiadau Hygyrch vi) Canllaw Dylunio ac Argraffu vii) Canllaw Landlordiaid Preifat a Chymdeithasol viii) Canllaw Pleidleisio Hygyrch ix) Canllaw Ymgynghori a Monitro x) Enwau Lleoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili xi) Sut i gael Acenion ar Lythrennau <p>Mae'r rhain yn sicrhau cydymffurfiaeth ag ystod eang o Safonau ac mae'r fersiynau diwygiedig yn nodi pa Safonau'n benodol sy'n berthnasol i'r ddogfen honno.</p> |
| <p>160, 166, 172, 174, 176</p> | <p>Ble mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gofyn am, neu'n bwriadu gofyn yn y dyfodol am unrhyw wybodaeth oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, bydd y Cyngor yn darparu hyn naill ai ar ffurf adroddiadau a dogfennau presennol, neu fel gwybodaeth sydd wedi cael ei pharatoi'n benodol os yw'r cais hynny ar gyfer unrhyw beth nad yw'r dogfennau ac adroddiadau presennol yn eu cwmpasu.</p> |

cymraeg@caerffili.gov.uk

[Caerffili – Safonau'r Gymraeg \(caerffili.gov.uk\)](http://caerffili.gov.uk)